Cyllid & Thollau EF



# Bydd y nodiadau hyn o gymorth i chi wrth lenwi ffurflen CIS - cofrestru cwmni (CIS305)

## Cofrestru ar gyfer taliad gros

Gallwch gofrestru ar gyfer Cynllun y Diwydiant Adeiladu a gwneud cais am daliad gros ar-lein neu drwy'r ffurflen argraffu ac anfon.

## Cofrestru ac amodau taliad gros

Er mwyn gwneud cais i gofrestru o dan Gynllun y Diwydiant Adeiladu (CIS) a sicrhau y caiff taliadau gan gontractwyr eu talu i'r cwmni'n llawn, mae'n rhaid i'r cwmni fodloni pob un o'r amodau canlynol:

- mae'n cael ei redeg yn y DU gyda chyfrif banc
- mae ganddo drosiant adeiladu net o £30,000 y flwyddyn ar gyfer pob unigolyn perthnasol (cyfarwyddwr a chyfranddaliwr buddiol os yw'r cwmni'n agos) neu o leiaf £100,000
- mae'r cwmni wedi cydymffurfio â rhwymedigaethau treth penodol

Gelwir y profion hyn yn brofion busnes, trosiant a chydymffurfio, a chânt eu hegluro isod.

## Prawf busnes

I basio'r prawf hwn:

- mae'n rhaid i'r cwmni allu dangos i ni ei fod yn cynnal gwaith adeiladu yn y DU neu'n darparu llafur ar gyfer gwaith o'r fath
- mae'n rhaid iddo gael ei redeg drwy gyfrif banc

## Prawf trosiant

Mae'r prawf hwn yn seiliedig ar 'drosiant adeiladu net'. Dyma incwm gros y cwmni o waith adeiladu, ac eithrio TAW a chost deunyddiau.
Mae'r prawf yn ystyried trosiant adeiladu net yn ystod y 12 mis cyn y cais am daliad gros.

Os yw cwmnïau sydd eisoes â statws taliad gros o dan y CIS yn berchen ar y cwmni'n gyfan gwbl, nid oes rhaid i'r cwmni hwnnw basio'r prawf trosiant.

Gall cwmnïau sefyll y prawf safonol neu'r prawf amgen. Er mwyn pasio'r prawf safonol, mae'n rhaid i'r cwmni allu dangos trosiant adeiladu net o £30,000 o leiaf ar gyfer pob cyfarwyddwr, ac os yw'r cwmni'n agos, ar gyfer pob cyfranddaliwr buddiol, yn y cyfnod o 12 mis cyn dyddiad y cais am daliad gros. Er mwyn pasio'r prawf amgen, mae'n rhaid i'r cwmni allu dangos trosiant net o £100,000 o leiaf yn ystod yr un cyfnod.

**Cysylltiadau**

**Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF**
Ffôn 0300 200 1900
**Y we**
www.gov.uk/cis

Mae'r llyfryn hwn ar gael mewn print bras. Os hoffech gopi, cysylltwch â Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF.
Ffoniwch 0300 200 1900 i gael fersiynau Cymraeg o ffurflenni a chanllawiau.

Os nad yw trosiant adeiladu net y cwmni yn ddigon i basio'r prawf trosiant, ond mae cyfanswm ei drosiant o bob ffynhonnell yn y 12 mis hyd at y cais yn fwy na'r trothwy, mae'n dal i fod yn bosibl i chi basio'r prawf. Gweler tudalennau 4 ac 5 am ragor o wybodaeth.

## Prawf cydymffurfio

Er mwyn pasio'r prawf cydymffurfio, yn ystod y 12 mis hyd at ddyddiad y cais am daliad gros, dylai'r cwmni fod wedi gwneud pob un o'r canlynol:

- llenwi a chyflwyno pob Ffurflen Dreth Hunanasesiad sy'n ddyledus erbyn y dyddiad cau
- llenwi a chyflwyno pob datganiad misol sy'n ddyledus gan y cwmni fel contractwr yn y diwydiant adeiladu erbyn y dyddiadau cau
- llenwi a chyflwyno unrhyw Ffurflenni TAW sy'n ddyledus erbyn y dyddiad cau
- talu unrhyw dreth TWE a chyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) sy'n daladwy gan y cwmni fel cyflogwr erbyn y dyddiadau cau
- talu unrhyw ddidyniadau sy'n daladwy gan y cwmni fel contractwr yn y diwydiant adeiladu erbyn y dyddiadau dyledus
- talu unrhyw rwymedigaethau TAW dyledus erbyn y dyledus
- bodloni ymrwymiadau o dan Ddeddf Cwmnïau 2006
- cyflwyno unrhyw wybodaeth rydym wedi gofyn amdani sy'n ymwneud â threth eich cwmni

Wrth ystyried a yw'r cwmni wedi pasio'r prawf cydymffurfio, byddwn yn anwybyddu rhai, neu hyd yn oed pob un, o'r agweddau canlynol yn ystod yr un cyfnod o 12 mis:

- tri achos o gyflwyno datganiad misol y contractwr yn hwyr - hyd at 28 diwrnod yn hwyr
- tri achos o gyflwyno datganiad misol y contractwr yn hwyr - hyd at 28 diwrnod yn hwyr
- tri thaliad hwyr o TWE/TAW/didyniadau CIS o £100 neu fwy - hyd at 14 diwrnod yn hwyr (caniateir hyn ar gyfer pob treth yn unigol)
- unrhyw daliad hwyr o TWE/TAW/didyniadau CIS lle bo'r swm o dan £100
- unrhyw Ffurflen Dreth Hunanasesiad hwyr - hyd at 28 diwrnod yn hwyr

Nid oes angen i'r cwmni ei hun fodloni'r meini prawf yn y prawf cydymffurfio os yw'r canlynol yn berthnasol:

- mae un neu fwy o'i aelodau wedi'u cofrestru ar gyfer taliad gros (fel partneriaeth neu fel arall) a
- mae'r aelod hwnnw neu'r aelodau hynny â meddiant neu â hawl i feddiannu (un o'r canlynol)
  - o leiaf 50% o'r cyfalaf cyfranddaliadau neu'r cyfalaf cyfranddaliadau y cwmni a ddyroddwyd
  - o leiaf 50% o bŵer pleidleisio'r cwmni
  - digon o gyfalaf cyfranddaliadau dyroddedig y cwmni i roi'r hawl i'r aelod neu aelodau gael o leiaf 50% o'r swm a ddosbarthwyd pe bai incwm cyfan y cwmni yn cael ei ddosbarthu ymhlith ei aelodau
  - yr hawliau hynny a fyddai'n caniatáu i'r aelod neu'r aelodau, ar achlysur dirwyn y cwmni i ben neu o dan unrhyw amgylchiadau eraill, gael o leiaf 50% o asedion y cwmni a fyddai ar gael i'w dosbarthu ymhlith ei aelodau (gan ddiystyru unrhyw hawliau y gallai fod gan aelod os yw'n gredydwr benthyciad)

Os byddai'r cwmni'n ennill statws taliad gros yn y ffordd hon, ni allai'r aelod sydd eisoes â statws taliad gros fod wedi ei gael yn y ffordd hon neu yn y ffordd gyfatebol ar gyfer ffŷrmau.

Os nad yw cais y cwmni i gael taliadau gros yn llwyddiannus, caiff ei daliadau diwydiant adeiladu eu talu o dan ddidyniad. Byddwn yn ysgrifennu at y cwmni a rhoi'r rhesymau gwirioneddol dros fod yn aflwyddiannus, ynghyd â chyngor ar sut y gall y cwmni apelio.

# Llenwi'r ffurflen gofrestru

## Help ac arweiniad

Bydd y nodiadau arweiniad hyn yn eich helpu i lenwi'r ffurflen gofrestru. Nid ydynt yn cynnwys nodiadau ar gyfer pob blwch - dim ond nodiadau ar gyfer y blychau hynny a allai beri problemau i chi, neu'r rhai lle y bydd rhagor o wybodaeth o ddefnydd i chi. Rydym yn hapus i helpu os hoffech help gydag unrhyw beth. Ffoniwch ein llinell gymorth ar 0300 200 1900.

Dylai ysgrifennydd y cwmni lenwi'r ffurflen gofrestru.

Dylai cyrff anghorfforedig lenwi'r ffurflen hon hefyd er mwyn cofrestru, a ffonio Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF i gael arweiniad ar sut i'w llenwi.

## Manylion y cwmni

3 **Cyfeirnod Unigryw y Trethdalwr (UTR)**
Nodwch y cyfeirnod y byddech yn ei ddefnyddio at ddibenion Hunanasesu Treth Gorfforaeth, sef y cyfeirnod a roddwyd i chi adeg cofrestru'r cwmni. Mae hwn i'w weld hefyd ar Ffurflen Dreth, Datganiadau, neu hysbysiadau Taliad ar Gyfrif y cwmni.

## Prawf trosiant

22 **Er mwyn gweld a yw'r cwmni'n gymwys ar gyfer statws taliad gros, mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni sawl unigolyn perthnasol sydd yn y cwmni.**

Mae 'unigolyn perthnasol' yn golygu unrhyw un sy'n gyfarwyddwr yn y cwmni, ac os yw'r cwmni'n agos, unrhyw un sy'n gyfranddaliwr buddiol.

Dylech nodi'r nifer mwyaf a oedd yn y cwmni yn ystod y cyfnod o 12 mis hyd at ddyddiad y cais hwn.

Os ydych yn gorff anghorfforedig, dylech nodi manylion yr aelodau yn yr adran 'Manylion cyfranddalwyr'.

Byddwn yn cynnal gwiriadau a gallwn wrthod cais os ydym o'r farn bod nifer yr unigolion perthnasol wedi'i danddatgan. Efallai y codir cosb ar y cwmni hefyd.

Os yw trosiant adeiladu net y cwmni yn ystod y 12 mis diwethaf yn hafal i £30,000 neu'n fwy x nifer yr unigolion perthnasol a ddangosir ym mlwch 22, neu'n hafal i £100,000 neu'n fwy, llenwch y blychau.

**A. Swm gros y taliadau (heb gynnwys TAW)**
I gyfrifo'r swm hwn, adiwch yr holl incwm y mae'r cwmni wedi'i gael o waith adeiladu, gan gynnwys cost y deunyddiau y mae wedi'u cyflenwi yn y cyfnod. Peidiwch â chynnwys TAW.

Mae incwm adeiladu yn cynnwys arian gan gleient am waith adeiladu, er enghraifft:

- gosod
- atgyweirio
- plymio
- gwaith trydanol
- paentio ac addurno
- dymchwel

**B. Cost deunyddiau (heb gynnwys TAW)**
Er mwyn cyfrifo hwn, adiwch yr holl symiau y mae'r cwmni wedi'u gwario ar ddeunyddiau a ddefnyddiwyd ganddo yn ystod y cyfnod. Peidiwch â chynnwys TAW.

Mae 'deunyddiau' yn golygu cost (heb gynnwys TAW) y canlynol:

- cost deunyddiau adeiladu a defnyddiau traul
- cost tanwydd (ac eithrio tanwydd ar gyfer teithio)
- y swm gwirioneddol a wariwyd ar logi peiriannau

**Peidiwch â chynnwys y canlynol:**

- treuliau teithio
- tanwydd ar gyfer teithio
- cost sgaffaldau a brynwyd gan isgontractwyr sgaffaldau

**C. Trosiant adeiladu net (A llai B)**
Nodwch fanylion yn ôl yr angen.

| **Enghraifft – ar gyfer cwmni sydd â 3 unigolyn perthnasol** | | |
|---|---|---|
| Swm gros y taliad (heb gynnwys TAW) | £ | 120,000.00 |
| Llai cost deunyddiau (heb gynnwys TAW) | £ | 25,000.00 |
| Trosiant net o waith adeiladu | £ | 95,000.00 |
| Nifer yr unigolion perthnasol 3 x £30,000 | £ | 90,000.00 |
| Mae'r trosiant adeiladu net yn fwy na'r terfyn statudol. Mae'r cwmni'n pasio'r prawf trosiant. | | |

Fel rhan o'r prawf trosiant, mae'n rhaid i chi allu darparu tystiolaeth er mwyn dangos sut y gwnaethoch gyfrifo'r ffigurau a ddefnyddiwyd yn y prawf. Mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod gan y cwmni drosiant adeiladu net o £30,000 x nifer yr unigolion perthnasol, neu £100,000 yn y cyfnod o 12 mis cyn dyddiad y cais.

Os nad yw busnes y cwmni yn ymwneud yn bennaf â gweithrediadau adeiladu, ac nad yw eich trosiant adeiladu net yn fwy neu'n gyfartal â £30,000 x nifer yr unigolion perthnasol, neu £100,000, ond mae cyfanswm y trosiant busnes o bob ffynhonnell yn y 12 mis hyd at ddyddiad y cais yn fwy na'r trothwy, mae'n dal i fod yn bosibl iddo wneud cais am daliad gros.

Nodwch fanylion trosiant gros y cwmni ynghyd â swm y trosiant adeiladu ar daflen ar wahân. Hefyd, bydd angen i chi roi enwau a chyfeiriadau'r contractwyr y mae'r cwmni wedi gweithio iddynt, gwerth pob contract a'r dyddiad y cytunwyd ar y contract.

Ar gyfer y cyfnod yr ydych wedi'i ddefnyddio, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos:

- dyddiadau y daeth y taliadau i law
- swm gros pob taliad a ddaeth i law fel rhan o Gynllun y Diwydiant Adeiladu
- taliadau gros llai TAW ar gyfer unrhyw waith preifat
- cost deunyddiau (llai TAW) a ddefnyddiwyd

Codir cosbau am wneud ceisiadau ffug. Os ydych yn rhoi gwybodaeth ffug, ni roddir statws taliadau gros i'r cwmni a gellir codi cosb arno o hyd at £3,000.

## Preifatrwydd a Diogelu Data

**Sut yr ydym yn defnyddio'ch gwybodaeth**

Mae Cyllid a Thollau EF yn Rheolwr Data o dan Ddeddf Diogelu Data 2018. Rydym yn cadw gwybodaeth at y dibenion a bennir yn ein hysbysiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth, gan gynnwys asesu a chasglu trethi a thollau, talu budd-daliadau ac atal a chanfod troseddau, a gallwn ddefnyddio'r wybodaeth hon at unrhyw un o'r dibenion hynny.

Mae'n bosibl y cawn wybodaeth amdanoch gan eraill, neu efallai y byddwn yn rhoi gwybodaeth iddynt. Os gwnawn hynny, bydd yn unol â'r hyn y mae'r gyfraith yn caniatáu yn unig, a hynny er mwyn gwneud y canlynol:

- gwirio cywirdeb gwybodaeth
- atal neu ganfod troseddau
- diogelu arian cyhoeddus

Efallai y byddwn yn cymharu gwybodaeth a gawn amdanoch â'r hyn sydd eisoes yn ein cofnodion. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a roddwyd gennych chi, yn ogystal â chan eraill, megis asiantaethau neu adrannau eraill o'r llywodraeth ac awdurdodau treth a thollau tramor. Ni fyddwn yn rhoi gwybodaeth i unrhyw un y tu allan i Gyllid a Thollau EF, oni bai bod y gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk a defnyddiwch y cyfleuster chwilio i ddod o hyd i'r adran Deddf Diogelu Data.